# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mawrth, 21 Chwefror 2012**

Amser y cyfarfod:
**13:30**

## Pleidleisiau a Thrafodion
(46)

### 1. Cwestiynau i'r Prif Weinidog

Dechreuodd yr eitem am 13.30

Ni ofynnwyd cwestiwn 5.  Tynnwyd cwestiwn 7 yn ôl.  Gwahoddodd y Llywydd arweinwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Prif Weinidog ar ôl cwestiwn 2.

### 2. Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

Dechreuodd yr eitem am 14.16

### 3. Datganiad gan y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Ty: Buddion caffael cyhoeddus i'r economi a chymunedau lleol

Dechreuodd yr eitem am 14.37

### 4. Datganiad gan Weinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy: Adroddiad Blynyddol Strategaeth Amgylcheddol 2010-11

Dechreuodd yr eitem am 15.20

### 5. Dadl ar Ddulliau o Adfywio

Dechreuodd yr eitem am 15.56

**NDM4915 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi bod y Llywodraeth yn bwriadu adolygu ei dulliau o ymdrin ag adfywio yn unol ag agenda'r Llywodraeth gyfan o fynd i'r afael â thlodi a chefnogi twf economaidd.

Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:

**Gwelliant 1 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod Cymunedau yn Gyntaf, un o'i phrif raglenni ar gyfer adfywio cymunedol, yn dangos ei bod yn perfformio'n well drwy sicrhau bod gan y rhaglen dargedau clir, perthnasol a mesuradwy i fynd i'r afael â thlodi a bod cyllid wedi'i gyfeirio at gyrraedd y targedau hyn.

**Derbyniwyd gwelliant 1 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**Gwelliant 2 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod prosiectau adfywio yn canolbwyntio ar flaenoriaethau lleol sy'n atebol yn ddemocrataidd drwy gynyddu rôl cynghorau lleol yn y broses drwyddi draw.

**Derbyniwyd gwelliant 2 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**Gwelliant 3 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu y gall canol tref bywiog chwarae rhan bwysig mewn adfywio economi cymuned.

**Derbyniwyd gwelliant 3 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliant a oedd yn weddill o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

**Gwelliant 4 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cydnabod nad yw micro-reolaeth Llywodraeth Cymru o'i hagenda adfywio yn gweithio, ac y bydd yn rhaid i'r Trydydd Sector a'r Sector Annibynnol fod yn bartneriaid gwirioneddol o ran strategaeth a chyflenwi er mwyn sicrhau adfywio cymunedol.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 4:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 16 | 7 | 29 | 52 |

**Gwrthodwyd gwelliant 4.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig wedi'i ddiwygio:**

**NDM4915 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi bod y Llywodraeth yn bwriadu adolygu ei dulliau o ymdrin ag adfywio yn unol ag agenda'r Llywodraeth gyfan o fynd i'r afael â thlodi a chefnogi twf economaidd.

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod Cymunedau yn Gyntaf, un o'i phrif raglenni ar gyfer adfywio cymunedol, yn dangos ei bod yn perfformio'n well drwy sicrhau bod gan y rhaglen dargedau clir, perthnasol a mesuradwy i fynd i'r afael â thlodi a bod cyllid wedi'i gyfeirio at gyrraedd y targedau hyn.

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod prosiectau adfywio yn canolbwyntio ar flaenoriaethau lleol sy'n atebol yn ddemocrataidd drwy gynyddu rôl cynghorau lleol yn y broses drwyddi draw.

Yn credu y gall canol tref bywiog chwarae rhan bwysig mewn adfywio economi cymuned.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 40 | 0 | 12 | 52 |

**Derbyniwyd y cynnig wedi'i ddiwygio.**

### 6. Dadl ar Setliad yr Heddlu

Dechreuodd yr eitem am 16.54

**NDM4916 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol ag Adran 84H o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, yn cymeradwyo Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol (Rhif 2) 2012-2013 (Setliad Terfynol - Awdurdodau Heddlu) a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Chwefror 2012.

Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

Canlyniad y bleidlais:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 40 | 0 | 12 | 52 |

**Derbyniwyd y cynnig.**

**Cyfnod Pleidleisio**
Dechreuodd y Cyfnod Pleidleisio am 17.35

### Crynodeb o Bleidleisiau

Daeth y cyfarfod i ben am 17:36

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13:30 ddydd Mercher, 22 Chwefror 2012**